Cofnodion Cyfarfod a gynhaliwyd ar 13eg o Tachwedd 25

Presennol oedd Guto Jones, Menai Hughes, Llio Morris (cadeirydd) Ffuon Williams, Prys Ellis, Dyfan Jones, Einion Edwards a Maria Roberts. Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cyngh Gwennol Ellis.
Croesawy – tim Trydan Clocaennog dau atom i gael sgwrs am ei dymuniad i gael gosod twrbeini gwynt yn nghlocaennog.
Datgan diddordeb ir Agenda - Menai Hughes (anfoneb fel Warden ir Yst Plwyf a anfoneb Glyn Hughes am dorri gwair y fynwent) Dyfan Jones - (anfoneb am wneud gwaith trydan yn Ystafell Plwyf). Maria Roberts – (llythyr ir llywodraethwyr gan Gyngor Bro Cerrig).
Darllenwyd y cofnodion blanorol ac fe'u harwyddwyd yn gywir.
Gohebiaeth
[1] Llew Gwyn - gofyn am gyfraniad - pasiwyd i beidio cyfrannu ar sail bod 3 ardal arall yn y gymuned felly ar sail tegwch i beidio cyfrannu.
[1.1] Urdd Gobaith Cymru Eisteddfod Ynys Mon 2026 - gofyn am gyfraniad – pasiwyd iw adael.
[1.2] Urdd Gobaith Cymru Rhanbarth Conwy – gofyn am gyfraniad – pasiwyd i gyfannu £100.00.
[1.3] Ambiwlans Awyr Cymru – gofyn am gyfraniad - pasiwyd iw adael am eleni.
[1.4] Cyngor Sir Conwy – Mae Conwy wedi cael grant i newid yr Olwyn droi yn y Parc felly bydd yn gwaith yn cael ei wneud erbyn mis Mawrth 26. Hefyd mae gwelliannau iechyd a diogelwch wedi ei wneud ar y giat newydd a wnaethbwyd yn ddiweddar.
[1.5] Awdit Cymru – mae'r gwaith archwilio wedi ei orffen ac mae adroddiad wedi ei dderbyn copi or adroddiad i gael ar y wefan Cyngor Bro.
[1.6] Un llais Cymru - hyfforddiant am ddim iw cael dyddiadau ir penodi nes ymalen.
[1.7] Cyngor B Sir Conwy – cafwyd llythyr yn nodi swm arian iw ystyried pan yn gosod precept y flwyddyn nesaf – Sesiynau Chwarae – deallwn bod arian wedi ei glust nodi i dalu am y sesiynnau. Llyfrgell Cymunedol – penodwyd swm o £1,729.00 ir Cyngor cymuned dalu y flwyddyn nesaf sef £500 yn fwy na llynnedd (bydd Cgh Gwennol Ellis yn edrych i mewn i hyn gan ei fod yn afresymol o uchel).
[1.8] John Jones – cafwyd llythyr ymddiswyddiad John Jones fel cadeirydd a fydd yn dod i ben ar yr 20fed o Tachwedd – y clerc i gysylltu ar Sir a cymeryd y camau priodol i hysbysebu sedd wag.
[1.9] Sul y Cofiio – cafwyd gwasanaeth hyfryd iawn a diolch ir Cyngh Gwennol Ellis am y trefniadau. Prynwyd torch ar ran y Cyngor bro am £19.99 yn daladwy ir clerc am ei phrynnu.
[2.] Canolfan Glyd - Anfonebau am mis Hydref £220.00 pasiwyd iw dalu – clerc i anfon anfonebau ymalen ir Sir i gael ad dallied. Pasiwyd i dalu ir Llew Gwyn £220.00.
[2.1] Haydn Roberts - anfoneb tori gwair am mis Hydref £220.00 pasiwyd iw dalu.
[2.2] Menai Hughes - anfoneb am waith agor a cau a glanhau ystafell plwyf am y flwyddyn £500.00. – pasiwyd iw dalu.
[2.3] Dyfan Jones – anfoneb am wneud gwaith trydan gosod socket trydan yn yr ystafell plwyf - £180.00 pasiwyd iw dalu.
[2.4] Glyn Hughes – anfoneb am dori gwair £1,360.00 pasiwyd iw dalu.
[2.5] Marc Roberts – bydd Marc yn cyflwyno cais ir Brenig am arian ir Toiledau/Parc.
[2.6] Coeden Nadolig - bydd coeden nadolig ar sgwar y pentref y clerc i gysylltu ar Brenig i ofyn caniatad i Einion nol coeden. Dywedodd Dyfan bydd rhaid prynnu ychydig o oleuadau gan bod rhai wedi tori pasiwyd iddo eu prynnu.
[2.7] Fynwent - pasiwyd i geisio am grant or Brenig tuag at blannu gwrych yn y fynwent.
[2.8] Cyngor B Sirol Conwy - cais cynllunio codi garej 3 Rhes Tyddyn Cefn Brith nid oedd unrhyw wrthwynebiad.

[2.9] Adroddiad y Cyngh Gwennol Ellis. – fel a sonwyd bydd i Cyngh Gwennol Ellis a Clerc gyfarfod a David Dudley lle esboniodd bydd Cylchfan newydd yn cael ei osod yn y Parc yn dilyn cais grant gan y Sir.
Cais grant Parc ar Thoiledau mae siawns dda o gael gyllid o gronfa Clocaennog.
Parcio wrth yr ysgol nid llawer o ddim yn cael ei wneud am hyn er codi y mater yn y llywodraethwyr olaf felly tybed os fyasai llythyr gan y Cyngor Bro yn helpu. Pasiwyd bod y clerc yn ysgrfiennu llythyr ir llywodraethwyr ar ran y Cyngor Bro yn gofyn os buasai y staff yn gallu parcio ochr y gwrych neu ar ran uchaf y palmant tu allan ir ysgol er mwyn gwneud lle i rieni barcio ger safle yr ysgol.
[3] Ffioedd y fynwent £25.00 Gosod carreg fedd y Diw Bethan Roberts a £25.00 gosod carreg fedd y Diw Nesta Lewis a £300 claddu y Diw Stanley Lloyd Davies a £150 claddu y Diw John Donald Jones.
[3.] Cyfrifydd Cerrig - daeth ychydig o sylwadau gan y cyfrifydd o beth yr hoffai gael ei wneud yn yr ystafell plwyf ei ddymuniad ydi bod ar agor i gwsmeriaid am ddiwrnod neu efallai ddau ond mae yn gofyn am gael gosod dwy ddesg i wneud y gwaith a cael 'spring clean' yn y gegin fach ar toiledau, a gosod internet er mwyn hwyluso gwaith iddo mae n ddiolchgar iawn am y soced trydan ychwnegol, gofynwyd ir clerc fynd ar ol sefydlu 'internet'.
Dyddiad y cyfardo nesaf 15fed o Ionawr 26.